


# COITY TIP TRAIL

---

Circular Walk  
Approx 1Km (0.6 miles)/ 15 mins/ gentle



# BLAENAVON INDUSTRIAL LANDSCAPE

## COITY TIP TRAIL

Approx 1Km (0.6 miles)/ 15 mins/  
gentle

### Coity Tip

The Coity Tip was created during the working life of Big Pit and its predecessor the Coity Pit, which was primarily an ironstone mine. Tips such as these were once a familiar site in industrial communities where waste rock and shale from the mining process was discarded on the surface, altering the landscape and environment forever.

When the tipping stopped, nature began to gradually reclaim the tip and surrounding area, which is now rich with plant and animal species. A pond has formed from the water running from the tip, and this has attracted many different forms of life. Some of the species found at the tip and pond are quite special and rare.

### The Trail

On a sunny day keep an eye open as you walk along the trail - you may see Common Lizards basking along the edge of the boardwalk. Stonechats and Linnets can often be seen in the bushes either side of the track. Don't forget to look up as well: you may catch sight of a Buzzard soaring overhead.

### Top Tips for Spotting Wildlife

Don't miss out! Spot the animals before they spot you!

- **Walk calmly, slowly and quietly.** Then you will see the birds before they fly away. The quieter you are the more you will see.
- **Use your ears.** Many of the birds are hard to see. They may be hidden in the bushes or flying high in the sky. Listen out for their songs then see if you can spot them.
- **Use your eyes.** Look all around you. See if you can spot any birds, lizards, butterflies or pond life. As you go up the hill you will spot many of the birds moving on just ahead of you.

- **Keep to small groups.** If you are in a big group divide up into several small groups – you will see much more wildlife.

#### Look out for:

- **Orange Tip Butterflies** – You can't miss those orange spots as they fly.
- Shiny green **Tiger Beetles** – You may find these under stones or in the grass.
- **Skylarks** – Look out for the narrow, white line along the back edge of the wing as they fly low over the grass. Meadow Pipits don't have this.

#### In Spring listen for:

- **Skylark's** joyful, whistling song which can go on for several minutes. The bird is usually just a speck in the sky while it sings.
- **Meadow pipit's** song with notes descending in tone as the bird drops back to the ground like a parachute.

## 1 Pontypool & Blaenavon Railway

If you look over to your right you can see the railway line of the Pontypool and Blaenavon Railway. The line from Brynmawr to Blaenavon was originally built in 1866 to transport coal to the Midlands, and eight years later was extended to meet the Great Western Railway at Abersychan & Talywain. Here the line carried on down the valley through Pontypool to the coast at Newport. The line was closed to passengers in 1941, and to goods in 1954, though the section from Blaenavon to Pontypool was in use for coal from Big Pit and other local mines until 1980.

Railway embankments and cuttings are largely unmanaged areas of ground that allow plants like rosebay Willowherb to establish themselves, as well as bramble and gorse bushes.



© Arthur Llewellyn



© Paul Husson



## 2 Coity Tip Pond

The pond is surrounded by fast-growing willows, which flourish on damp soils. The margins have Greater Bulrush, Lesser Spearwort, Marsh Horsetails and rushes.

In the deep water Canadian Pondweed grows. There may be thousands of tadpoles in the spring. Look out for birds like Reed Bunting and Willow Warbler in the willow around the pond.



Sloping down to the pond are wet grasslands with tussocks of Purple Moor-grass, Marsh Thistle and Hairy Willowherb. In the wettest parts, Southern Marsh-orchids may be found amongst rushes. The drier grassland patches have Wavy Hair-grass and Tormentil, with occasional patches of Bilberry (known locally as whimberries).

If you look carefully you will notice an orange deposit in the bed of the stream which runs into the pond. This comes from the ironstone that occurs naturally in the surrounding ground. Coity Pit and Big Pit both originally mined ironstone which was used for the world famous Blaenavon Ironworks, which you can see if you look over to the opposite side of the valley.

3 The tip spoil is being colonised by grasses (Sheep's-fescue, Heath-grass, Bents), Mouse-ear Hawkweed and occasional patches of Heather and Bilberry. Mosses and lichens both grow well between the plants. There is an interesting mix of species which like acid and alkali conditions. The vegetation is quite sparse and open due to the harsh nature of the soil.

Some uncommon plants like Carlina Thistle, Madder, Spring Sedge and Small Cudweed have colonised the less acid areas of spoil, and add to the biodiversity on the site.

The short grass cover of the tip is ideal breeding habitat for Sky Lark and Meadow Pipit.





## After Aberfan

The tipping of mine waste continued with little regard for safety until 1966, when a coal tip collapsed on the village of Aberfan killing 144 people including 116 children. Following this disaster, great efforts were made to make safe or remove large numbers of tips in Wales.

If you look to your right, you will see the remains of a coal tip which was re-profiled after the Aberfan disaster in order to make it safe.



Aberfan, 1966

## An ever changing tip

The underground waste which formed the Coity Tip has spontaneously combusted and slowly burned over the years to form the 'red ash' which is visible in parts of the tip today.

If you look at the base of the tip you can see where some of this burnt waste has been added to repair damage caused when part of the tip was removed for use in building works.

This will eventually regenerate, as the rest of the tip has, but the timescale is very difficult to determine as it often relies on the prevailing micro climate, and other conditions. Some tips are very slow to establish; in others this happens relatively quickly.

**6** The differences between the heathland and grassland vegetation at this point are due to the soils. The soils vary as different types of rock from the mine have been tipped in different places. On the dry, acidic spoil on the west side of the path, Heather and Bilberry dominate. On the flatter, better soils on the east side (towards Big Pit), grasses and flowers grow better and produce colourful grasslands. Some plants which fix nitrogen and improve the amount of nutrients in the soil have colonised the grasslands, such as Bird's-foot Trefoil.

**7** During times of hardship and depression, many people went 'coal picking' on tips. This was an illegal activity which could bring very severe penalties for those caught. However, during major disputes like the 1926 Miners' Lockout and the 1984-85 Miner's Strike, many miners were prepared to take that risk to provide fuel for their homes. If you look carefully, evidence of coal picking can be seen as indentations in the top of the tip.



Coal picking, tips at Cymmer, Rhondda c.1939

In spring and autumn keep an eye open for birds stopping off on their way to and from more northerly nesting areas. If you are lucky you may see a Northern Wheatear perched on the waymarker posts: look out for the flash of white on its back as it flies.

**8** If you look beyond Big Pit at the valley below the town, you can get a good idea of how the area would have looked before the Industrial Revolution. The only sign of human presence at the time would have been a few farms and cottages.

In December 2000, Blaenavon was designated as a UNESCO World Heritage Site for the following reason:

"The area around Blaenavon bears eloquent and exceptional testimony to the pre-eminence of South Wales as the world's major producer of iron and coal in the 19th century. All the necessary elements can be seen, including coal and ore mines, quarries, a primitive railway system, furnaces, the homes of workers, and the social infrastructure of their community."

Although now overgrown, the tips that dominate the skyline to the left and north of the town would have been part of a black scar which spread across the original rural landscape as industry intensified. It would have been inconceivable to people living in the area then that this valley would once again be green and pleasant.

As you look out over the valley one of the commonest birds you will see is the Jackdaw which is the smallest member of the crow family. In the autumn and winter huge flocks of Jackdaws, Rooks and Carrion Crows



roost in the trees around the Gilchrist Thomas Industrial Estate. An impressive sight if you are in the area near dusk.

**9** **Coltsfoot** is abundant in the grassland area to the east. Its yellow dandelion-like flowers appear in spring before the leaves and the wind-blown seeds rapidly colonise bare ground.

Before the National Health Service existed, Coltsfoot was essential in the treatment of all chest complaints and is still used in herbal remedies today. It was especially effective in helping soothe miners' chest complaints from breathing dust. Today it has an essential role at this site as it has an extensive root (rhizome) system that helps stabilise the banks of the tips.

Many of the plant species found at the Coity Tip have historically been used to treat illnesses and ailments.

**Lesser spearwort**, which can be found around the pond was once used in a technique called 'Blistering'. The juice of the plant was applied to the temples in the treatment of toothache, sciatica and other painful conditions.

**Tormentil**, is a very versatile plant used to treat many different complaints. Its name is derived from the Latin tormina meaning colic, which it was used

to treat, and the root of the plant was also to make an astringent tooth powder for gum disease. It has been used to treat cuts, wounds, mouth ulcers, inflammation, sunburn, haemorrhoids, diverticulitis, frostbite, burns and diarrhoea.

The potential medical value of biodiversity is one of the key drivers for conservation. Much of our food, clothing, building materials and medicines originate from biodiversity. It could help provide a solution for some incurable conditions in the future.

**10** Some trees and shrubs are already colonising the tip. Broom, Rowan, Hawthorn and birches occur scattered on the drier ground, and willows are beginning to form a wood by the stream to the south-west. It will be hundreds of years before the tip is covered by oak and alder woodland, as the area probably used to be several thousand years ago.

Several types of birds use the dense bushes in the small woodland as cover to build their nests. Song Thrush, Blackbird, Robin and Chaffinch can be seen nearly all year. In spring and summer the woodland may also be home to Chiffchaffs and the Common Redstart.

**11** Some of the best heathland is developed on the steep slopes above the path, where there is a mixture of Heather and Bilberry (known locally as 'Whimberries'). The large whitish clumps which look like sponges between the heath are a Cladonia lichen.

## Protecting the Environment

When mines close there is often a problem with flooding. Flood water in mines turns acidic and becomes full of dissolved iron. If this water escapes into streams and rivers it can cause serious pollution that kills much of the life present.

A way of preventing this pollution is to pass the mine water through specially constructed reed beds which absorb the iron and purify the water before it enters the river.



Reed beds

A joint project between Big Pit, The Coal Authority and Torfaen County Borough Council has created a mine water treatment scheme to deal with the water issuing from Big Pit and the other mines in Blaenavon. This scheme at Blaenavon takes place at the River Arch the emergency evacuation route from Big Pit, just below the Gilchrist Thomas Industrial Estate.

A Blaenavon Walks Pack is available which includes several walks in the Blaenavon area. The walks range from easy strolls to energetic hikes, with distances of just under 4km (2 1/2 miles) to over 18km (12 miles). Included is the Iron Mountain Trail, a two-part circular walk which takes in the major sites of the Blaenavon Industrial Landscape World Heritage Site.

This pack is available at the Tourist Information Centre, which is located in the Blaenavon World Heritage Centre. For further information telephone 01495 742333.

Further information about the World Heritage Site can be found at: [www.visitblaenavon.co.uk](http://www.visitblaenavon.co.uk)

Other useful websites:  
National Museum Wales including Big Pit: National Coal Museum [www.museumwales.ac.uk](http://www.museumwales.ac.uk)



Coltsfoot





View of Big Pit taken in 1972. Big Pit ceased production as a coal mine in 1980. The spoil heaps in the foreground have since been reclaimed to form a very different landscape.



## BLAENAVON INDUSTRIAL LANDSCAPE GOITY TIP TRAIL

- Enjoy the countryside and respect its life and work;
- Guard against all risk of fire;
- Fasten all gates;
- Keep your dogs under control, preferably on a lead;
- Keep to public paths across farmland;
- Use gates and stiles to cross fences, hedges and walls;
- Leave livestock, crops and machinery alone;
- Take your litter home;
- Help to keep all water clean;
- Protect wildlife, plants and trees;
- Take special care on country roads;
- Make no unnecessary noise.

Other walks leaflets for the World Heritage Site and other areas in Torfaen are available. For further information contact  
Blaenavon Tourist Information Centre on  
01495 742333  
[www.visitblaenavon.co.uk](http://www.visitblaenavon.co.uk)




Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

national  
museum  
wales  
cymru  
amgueddfa

Supported by  
the Heads of the  
Valleys Programme



©2009 Communications Design, TCBC



# LLWYBR

# TOMEN Y COETY


---

Taith Gylch

Tua 1km (0.6 milltir) / 15 munud /  
cymedrol



**BLAENAVON**  
WORLD HERITAGE SITE  
SAFLE TREFTADAETH BYD



[www.visitblaenavon.co.uk](http://www.visitblaenavon.co.uk)



# BLAENAVON INDUSTRIAL LANDSCAPE

## TOMEN Y COETY

**Taith Gylch Tua 1km (0.6 milltir) / 15 munud / cymedrol**

### Tomen y Coety

Cafodd Tomen y Coety ei chreu yn ystod oes waith y Pwll Mawr (neu'r 'Big Pit' fel y'i gelwir), a'i ragflaenydd Pwll y Coety, a oedd yn bwl haearnaen yn anad dim. Roedd tomenni fel y rhain yn arfer bod yn olygfa ddigon cyffredin mewn cymunedau diwydiannol gan fod cerrig gwastraff a siâl o'r broses fwyngloddio yn cael eu gadael ar yr wyneb, - gweithgaredd sydd wedi gweddnewid y dirwedd a'r amgylchfyd am byth.

Pan roddwyd gorau i'r arfer o bentyrro rwbel ar y domen, fe ddechreuodd natur adennill y tir hwnnw'n raddol, ynghyd â'r ardal amgylchynol, sydd nawr yn gyfoeth o wahanol fathau o blanhigion ac anifeiliaid. Mae'r dŵr sy'n rhedeg i lawr o'r domen wedi creu pwll sy'n denu nifer o wahanol fathau o fywyd. Mae rhai o'r rhywogaethau sydd ar y domen ac yn y pwll yn arbennig ac yn brin.

### Y Llwybr

Pan fyddwch chi'n cerdded ar hyd y Llwybr, a hithau'n ddiwrnod braf, cadwch eich llygaid yn agored - efallai y byddwch yn ddigon ffodus i gael gweld Madfall yn torheulo yn ymyl y Llwybr pren. Nid anarferol ychwaith yw gweld clochdar y cerrig neu linos yn llechu yn y llwyni o boptu'r llwybr. A pheidiwch ag anghofio edrych i fyny ychwaith: efallai y gwelwch fwncath yn hedfan fry uwchben.

### Awgrymiadau Da ar gyfer Gwyllo Bywyd Gwylt

**Peidiwch â cholli cyfle! Sicrhewch eich bod chi'n cael cip ar yr anifeiliaid cyn iddynt hwy eich gweld chi!**

- **Ewch gan bwyll, yn araf ac yn dawel.** Yna fe gewch weld yr adar cyn iddynt gael cyfle i hedfan i ffwrdd. Os byddwch chi'n cadw'n dawel, byddwch yn sicr o weld mwy.
- **Defnyddiwch eich clustiau.** Mae nifer o'r adar yn anodd ei gweld. Efallai y byddant yn cuddio yn y llwyni neu'n hedfan fry uwchben yn yr awyr. Gwrandewch ar eu cân, ac yna ceisiwch ddod o hyd iddynt.
- **Defnyddiwch eich llygaid.** Edrychwch o'ch cwmpas. Edrychwch i weld a allwch chi ddod o hyd i unrhyw adar, madfallod, glöynnod byw neu greaduriaid y pyllau dŵr.

Wrth i chi fynd i fyny'r bryn, fe welwch nifer o'r adar yn symud rhyw fymryn o'ch blaen.

- **Cadwch at grwpiau bach.** Os ydych wedi dod yno mewn un grŵp mawr, ymrannwch yn nifer o grwpiau llai – fe welwch lawer iawn mwy o fywyd gwyllt os gwnewch chi hynny.

#### Cadwch lygad am:

- **Y gwyn blaen oren** - byddai'n amhosibl i chi beidio â gweld ei smotiau oren wrth i'r glöyn hwn hedfan
- **Y chwilen deigr werdd loyw** – Efallai y dewch o hyd i rai o'r rhain o dan gerrig neu yn y glaswellt.
- **Yr ehedydd** - Edrychwch am y llinell wen, gul ar hyd ymyl gefn yr adain wrth iddo hedfan yn isel dros y glaswellt. Nid oes gan Gorhedydd y Waun yr un patrwm ar ei adenydd.

#### Yn ystod y Gwanwyn, gwrandewch am:

- Gân chwibanog, llon yr **ehedydd** sy'n gallu parhau am rai munudau ar y tro. Fel arfer, ni fydd yr aderyn hwn yn ddim ond smoty bach yn yr awyr wrth iddo ganu.
- Cân **Corhedydd y Waun** â thôn y nodau'n disgyn wrth i'r aderyn ddod yn ôl i lawr i'r ddaear fel parasiwt.

## 1 Rheilffordd Pont-y-pŵl a Blaenafon

Os edrychwch i'r dde, fe welwch llinell Rheilffordd Pont-y-pŵl a Blaenafon. Adeiladwyd y llinell o Frynmawr i Flaenafon yn wreiddiol ym 1866 i gludo glo i Ganolbarth Lloegr, ac wyth mlynedd yn ddiweddarach fe gafodd ei hymestyn i ymuno â Rheilffordd y Great Western yn Abersychan a Thal-y-waun. Yn y fan hon, roedd y llinell yn mynd yn ei blaen i lawr y dyffryn trwy Bont-y-pŵl hyd at yr arfordir yng Nghasnewydd. Cafodd y llinell ei chau i deithwyr ym 1941, ac yna i nwyddau ym 1954, er bod y rhan rhwng Blaenafon a Phont-y-pŵl yn parhau i gael ei defnyddio ar gyfer cludo glo o'r Pwll Mawr a phyllau lleol eraill hyd 1980.

Mae'r argloddiau a'r hafnau rheilffyrdd yn ddarnau o dir nad ydynt yn cael eu rheoli i raddau helaeth, sy'n golygu bod planhigion megis yr Helyglys Hardd, ynghyd â llwyni mwyar duon ac eithin, yn cael llonydd i ymsefydlu.



© Arthur Llewellyn



© Paul Hudson



## 2 Pwll Dŵr Tomen y Coety

Amgylchynir y pwll gan helyg sy'n tyfu'n gyflym, sy'n ffynnu mewn pridd llaith. Ar y lan fe welwch gynffon y gath, llafnlys bach, marchrawnne y gors a brwyn yn tyfu. Mae ffuglaw Canada yn tyfu yn y dŵr dwfn. Fe all fod miloedd o benbyliaid yno yn y gwanwyn. Cadwch eich llygaid yn agored am adar megis bras y cyrs a thelor yr helyg yn cuddio yn yr helyg o amgylch y pwll.



Glaswelltiroedd gwlyb sy'n tyfu ar y llethrau i lawr at y pwll, â thwffiau o laswellt y gweunydd, ysgallen y gors a helyglys pannog yma ac acw. Yn y rhannau gwlypaf, mae'n bosibl i chi ddod o hyd i degeirian-y-gors deheuol yng nghanol y brwyn. Yn rhannau sychach y glaswelltir, mae'r brigwellt main a thresgl y moch yn tyfu, ynghyd ag ambell lecyn â llus (neu 'whimberries' fel y'u gelwir yn lleol).

Os edrychwch yn ofalus, fe sylwch ar ddyddodion oren yng ngwely'r nant sy'n rhedeg i mewn i'r pwll. Fe ddaw hwnnw o'r haearnaen sy'n ffenomenon naturiol yn y tir amgylchynol. Yn wreiddiol, cloddwyd am haearnaen ym Mhwl y Coety a'r Pwll Mawr, a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Gwaith Haearn byd-enwog Blaenafon, ac fe allwch ei weld os edrychwch i gyfeiriad yr ochr draw i'r dyffryn.

3 Mae glaswelltiroedd (peiswellt y defaid, grugwellt, maeswellt) yn prysur ymsefydlu ar rwbel y domen, ynghyd â chluster y llygoden ac ambell lecyn o grug a llus. Mae mwsoglau a chennau'n tyfu'n dda rhwng y planhigion. Mae yna gymysgedd diddorol o rywogaethau sy'n ffynnu o dan amgylchiadau asidig ac alcalinaidd. Mae'r llystyfiant yn gymharol denau ac agored yn sgil natur erwin y pridd.

Mae rhai planhigion anghyffredin megis ysgallen Siarl, mandon, hesgen gynnar a'r edafeddog fach wedi ymsefydlu yn y manau llai asidig yn y rwbel, sy'n ychwanegu at y fioamrywiaeth sydd ar y safle.

Mae'r glaswellt byr sy'n gorchuddio'r domen yn gynefin bridio delfrydol ar gyfer yr ehedydd a chorhedydd y waun.





## Wedi Aberfan

Parhawyd i bentyrru gwastraff o'r pyllau heb feddwl rhyw lawer am ddiogelwch hyd 1966, pan ddisgynnodd tomen lo ar bentref Aberfan gan ladd 144 o bobl, a oedd yn cynnwys 116 o blant. Yn dilyn y trychineb hwn, aethpwyd ati o ddirif i sicrhau bod y tomenni presennol yn ddiogel, neu i gael gwared ar nifer fawr o'r tomenni yng Nghymru.

Os edrychwch i'r dde, fe welch olion tomen lo a gafodd ei hail-broffilio wedi trychineb Aberfan er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel.

## Tomen newidiol

Fe ddechreuodd y gwastraff tanddaearol sydd wedi ffurfio Tomen y Coety losgi ohono'i hun ac mae wedi parhau i losgi'n araf dros y blynyddoedd i ffurfio'r 'lludw coch' sydd i'w weld mewn rhannau o'r domen heddiw.

Os edrychwch at waelod y domen, fe welch ble'n union yr aethpwyd ati i ychwanegu rhywfaint o'r gwastraff hwn sydd wedi llosgi er mwyn trwsio'r difrod a wnaed wrth glirio rhan o'r domen i'w defnyddio mewn gwaith adeiladu.

Bydd y rhan hon yn sicr o adfywio ymhen amser, fel y mae gweddill y domen, ond mae'n anodd pennu pa mor hir y bydd hynny'n ei chymryd oherwydd bod hynny'n aml yn dibynnu ar y microhinsawdd cyffredinol, yn ogystal ag amodau eraill. Mae rhai tomenni'n cymryd cryn amser i ymsefydlu; tra bo hynny'n digwydd yn gymharol gyflym mewn rhai eraill.

**6** Y pridd sy'n cyfrif am y gwahaniaethau rhwng llystyfiant y gweundir a'r glaswelltir yn y fan hon. Mae'r pridd yn amrywio gan fod gwahanol fathau o gerrig o'r pwll wedi cael eu gadael mewn gwahanol leoedd. Ar y rwbwl asidig, sych ar ochr orllewinol y llwybr, y grug a'r llus sy'n ffynnu. Ar y priddoedd gwell, mwy gwastad ar yr ochr ddwyreiniol (i gyfeiriad y Pwll Mawr), glaswellt a blodau sy'n tyfu'n well ac yn cynhyrchu glaswelltiroedd lliwgar. Mae rhai planhigion sy'n sefydlogi nitrogen ac yn gwella faint o faeth sydd yn y pridd, megis pysen-y-ceirw, wedi ymsefydlu yn y glaswelltiroedd.

**7** Yn ystod y cyfnodau caled a'r dirwasgiad, âi llawer o bobl i 'bigio glo' ar y tomenni. Roedd hwn yn weithgaredd anghyfreithlon a allai arwain at gosb ddirifol i'r rhai a oedd yn cael eu dal. Fodd bynnag, yn ystod anghydfodau mawrion megis Cloi'r Pyllau 1926 a Streic y Mwynwyr 1984-85, roedd nifer o fwynwyr yn fodlon mentro er mwyn cael tanwydd ar gyfer eu cartrefi. Os edrychwch yn ofalus, fe welch dystiolaeth o'r arfer o bigio glo fel tolciau ym mrig y domen.

Pigo glo, tomenni yng Nghymer, y Rhondda oddeutu 1939

Yn ystod y gwanwyn a'r hydref, cadwch lygad am adar yn gorffwys ar y ffordd i ardaloedd nythu mwy gogleddol, neu ar eu ffordd yn ôl o'r lleoedd hynny. Efallai y byddwch yn ddigon ffodus i gael gweld tinwen y garn yn clwydo ar yr arwyddbyst: edrychwch am fflach o wyn ar ei gefn wrth iddo hedfan.

**8** Os edrychwch y tu hwnt i'r Pwll Mawr at y dyffryn islaw'r dref, fe gewch ryw syniad o sut y byddai'r ardal wedi edrych cyn y Chwyldro Diwydiannol. Yr unig arwydd o bresenoldeb dyn bryd hynny fyddai lllond llaw o ffermydd a bythynnod ar wasgar.

Ym mis Rhagfyr 2000, cafodd Blaenafon ei ddynodi yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO am y rheswm a ganlyn:

“The area around Blaenavon bears eloquent and exceptional testimony to the pre-eminence of South Wales as the world's major producer of iron and coal in the 19th century. All the necessary elements can be seen, including coal and ore mines, quarries, a primitive railway system, furnaces, the homes of workers, and the social infrastructure of their community.”

Er eu bod wedi tyfu'n wyllt erbyn hyn, byddai'r tomenni sy'n ymgodi i'r nenlinell i'r chwith ac i'r gogledd o'r dref wedi bod yn rhan o graith ddu a oedd yn ymledu ar draws y dirwedd wledig wreiddiol wrth i ddiwydiant gynyddu. Byddai wedi bod y tu hwnt i amgyffred y bobl a oedd yn byw yn yr ardal bryd hynny y gallai'r dyffryn hwn byth fod yn wyrdd ac yn ddymunol eto.

Wrth i chi edrych allan dros y dyffryn, un o'r adar mwyaf cyffredin a welwch yw'r jac-y-do, sef yr aelod lleiaf o deulu'r brain. Yn ystod yr hydref



Aberfan, 1966



a'r gaeaf, mae heidiau mawrion o adar megis y jac-y-do, yr ydfran a'r frân dyddyn yn clwydo yn y coed o amgylch Stad Ddiwydiannol Gilchrist Thomas. Golygfa drawiadol os ydych yn digwydd bod yn y cyffiniau pan fo hi'n nosi.

**9** Mae **carn yr ebol** yn doreithiog yn y glaswelltir i'r dwyrain. Mae ei flodau melyn sy'n debyg i ddant y llew yn ymddangos yn y gwanwyn cyn i'r dail a'r hadau sy'n cael eu cario ar y gwynt ymsefydlu'n gyflym ar dir llwm. Cyn i'r Gwasanaeth Lechyd Cenedlaethol gael ei sefydlu, roedd carn yr ebol yn hanfodol i drin yr holl gwynion a wnelo'r frest, ac mae'n dal i gael ei ddefnyddio mewn meddyginiaethau llysieuol hyd heddiw. Roedd yn arbennig o effeithiol o ran helpu i leddfu cwynion y frest ymlith mwynwyr yn sgil anadlu llwch. Heddiw, mae ganddo rôl hanfodol ar y safle hwn gan ei fod yn meddu ar system helaeth o wreiddiau (rhisom) sy'n helpu i sadio llethrau'r tomenni.

Yn hanesyddol, mae nifer o'r planhigion sydd i'w canfod yn Nhomen y Coety wedi cael eu defnyddio i drin clefydau ac anhwylderau.

Roedd y **llafnlys bach**, sy'n tyfu o amgylch y pwll dŵr, yn arfer cael ei ddefnyddio mewn techneg o'r enw 'Pothellu'. Roedd sudd y planhigion yn cael ei ddodi ar yr arleisiau i drin y ddannoedd, clunwst a chyflyrau poenus eraill.

Mae **tresgl y moch** yn blanhigyn amldefnydd a oedd yn cael ei ddefnyddio i drin nifer o wahanol gwynion. Mae ei enw'n deillio o'r gair Lladin 'tormina' sy'n golygu colig, sef y salwch yr oedd yn cael ei ddefnyddio i'w drin, ac roedd gwraidd y planhigyn yn cael ei ddefnyddio yn ogystal i wneud powdr dannedd egr ar gyfer clefyd y deintgig. Roedd yn cael ei ddefnyddio i drin briwiau, clwyfau, briwiau yn y geg, enyniad, llosg haul, clwy'r marchogion, llid y cildro, ewinhew, llosgiaidau a dolur rhydd. Mae gwerth meddygol posibl y fioamrywiaeth yn un o'r ffactorau sy'n sbarduno cadwraeth. Mae llawer o'n bwyd, ein dillad, ein deunyddiau adeiladu a'n meddyginiaethau yn deillio o fioamrywiaeth. Yn y dyfodol, fe allai ein helpu i ddod o hyd i atebion ar gyfer cyflyrau na ellir eu gwella.

**10** Mae rhai coed a llwyni eisoes wedi llwyddo i ymsefydlu ar y domen. Mae enghreifftiau o'r fanhadlen, y griafolen, y ddraenen wen a'r fedwen yn tyfu yma ac acw ar y tir sychach, ac mae helyg yn dechrau ffurfio coedwig ger y nant i'r de orllewin. Bydd rhaid disgwyl cannoedd o flynyddoedd cyn i goedlan o goed derw a gwern orchuddio'r domen, fel yr oedd yr ardal yn ymddangos filoedd o flynyddoedd yn ôl, yn ôl pob tebyg.

Mae nifer o wahanol fathau o adar yn defnyddio'r llwyni trwchus yn y goedlan fach fel lle i adeiladu eu nythod. Mae'n bosibl gweld y fronfraith, y fwyalchen, y robin goch a'r ji-binc yno trwy'r flwyddyn gyfan fwy neu lai. Yn ystod y gwanwyn a'r haf fe all y goedlan hefyd fod yn gartref i'r siff-siaff a'r tingoch.

**11** Mae rhywfaint o'r gweundir gorau wedi datblygu ar y llethrau serth uwchlaw'r llwybr, lle bo cymysgedd o rug a llus (sy'n cael eu galw'n 'Whimberries' yn lleol). Cen byseddog yw'r clystyrau mawr gwyn tebyg i sbyngau rhwng y gweundiroedd.

## Diogelu'r Amgylchedd

Ar ôl i byllau gau, yn aml iawn fe geir problemau â llifogydd. Mae dŵr llifogydd mewn pyllau'n troi'n asidig ac mae'n llawn haearn toddeiddig. Os yw'r dŵr hwn yn llwyddo i ddianc a chyrraedd nentydd ac afonydd, fe all beri llygredd difrifol sy'n lladd y rhan fwyaf o'r bywyd sydd yno.

Un ffordd o rwystro'r llygredd hwn yw sicrhau bod dŵr y pwll yn rhedeg trwy welyau cyrs sydd wedi'u hadeiladu'n arbennig i amsugno'r haearn a phuro'r dŵr cyn iddo gyrraedd yr afon.

Mae prosiect ar y cyd rhwng y Pwll Mawr, yr Awdurdod Glo a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi creu cynllun trin dŵr pyllau i ddelio â'r dŵr sy'n deillio o'r Pwll Mawr a phyllau eraill ym Mlaenafon. Mae'r cynllun hwn ym Mlaenafon yn digwydd yn y 'River Arch', sef y ffordd ymadael mewn argyfwng o'r Pwll Mawr, ychydig islaw Stad Ddiwydiannol Gilchrist Thomas.

Mae Pecyn Teithiau Cerdded Blaenafon ar gael sy'n cynnwys sawl taith gerdded yn ardal Blaenafon. Mae'r teithiau hyn yn amrywio o rai hamddenol i rai egniol, ac mae'r pellteroedd yn amrywio o ychydig llai na 4km (2 ½ milltir) i dros 18km (12 milltir). Cynhwysir y Llwybr Mynydd Haearn, sef taith gylchol sydd wedi'i rhannu yn ddwy ran, sy'n mynd heibio i'r safleoedd pwysicaf yn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Diwydiannol Blaenafon.

Mae'r pecyn hwn ar gael o'r Ganolfan Groeso yng Nghanolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 01495 742333.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Safle Treftadaeth y Byd hwn yn: [www.visitblaenavon.co.uk](http://www.visitblaenavon.co.uk)

Gwefannau defnyddiol eraill:

Amgueddfa Cymru gan gynnwys Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru [www.museumwales.ac.uk](http://www.museumwales.ac.uk)



Carn yr Ebol





Golygfa o'r Pwll Mawr a dynnwyd ym 1972. Fe ddaeth y Pwll Mawr i ddiwedd ei oes fel pwll glo ym 1980. Mae'r tomenni gwastraff yn y blaendir wedi cael eu hadfer oddi ar hynny i greu tirwedd sy'n wahanol iawn.

## BLAENAVON INDUSTRIAL LANDSCAPE TOMEN Y GOETY

Mwynhewch gefn gwlad a pharchwch ei fywyd a'i waith;  
Gwylwch rhag unrhyw risg o dân;  
Caewch bob clwyd;  
Cadwch eich cŵn dan reolaeth, ar dennyn os yn bosib;  
Cadwch at lwybrau cyhoeddus sy'n croesi tir fferm;  
Defnyddiwch glwydi a chamfeydd i groesi ffensys, llwyni a waliau;  
Gadewch lonydd i dda byw, cynyau a pheiriannau;  
Ewch â'ch sbwriel adref;  
Helpwch gadw dŵr yn lân;  
Gwarchodwch fywyd gwyllt, planhigion a choed;  
Cymerwch ofal arbennig ar ffyrdd gwledig;  
Peidiwch â gwneud sŵn diangen.  
Mae tafenni teithiau cerdded eraill ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd ac ardaloedd eraill yn Nhorfaen ar gael.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Chanolfan Groeso Blaenafon ar 01495 742333  
[www.visitblaenavon.co.uk](http://www.visitblaenavon.co.uk)



Cefnogir gan Raglen  
Blaenau'r Cymoedd

Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

national  
museum  
wales  
cymru  
amgueddfa



©2009 Communications Design, TCBC

